

Angharad Price

Rhwng Môn ac Arfon

I ni sy'n byw ar lannau Afon Menai mae llanw a thrai'r Iwerydd yn rhan o'n bywyd beunyddiol, a'r môr ddwywaith bob diwrnod yn llenwi ac yn gwagio'r hafn sy'n creu'r ffin rhwng Môn ac Arfon. I ni yn Arfon, yr afon hon sy'n ein diffinio ni, yn enwedig ar benllanw. Ar ddistyll, ac inc glas y Fenai fel petai ar ddiflannu, mae'n bygwth ein difodi'n llwyr.

Er i mi ddweud 'afon', nid afon mo Afon Menai go iawn, gan mai hallt yw'r dŵr. Culfor ydyw: llawes o fôr rhyw filltir o led ac ugain o hyd sy'n cysylltu Bae Caernarfon yn y gorllewin a Bae Conwy yn y dwyrain. Ansad yw ei gwely, yn newid yn barhaus wrth i'r tywod symud gyda'r llifoedd a'r gwrthlifoedd nerthol, ac mae'n berygl bywyd i longau a dynion.

Credaf fy mod yn nodweddiadol o drigolion Caernarfon am mai amwys yw fy agwedd at yr afon hon sy'n ein hatgoffa bob dydd pa mor bell i fynd. Diolchwn iddi am ddod rhyngom ac amaethwyr gwastad Môn. Diolchwn iddi am ddod â'r byd i'n tref hynafol: am wneud Hambro, a Bordô, a Sydney a Valparaiso yn fwy cyfarwydd inni na phentrefi mynyddig Eryri, ac am ddod ag olew a gwinoedd a baco shag at ein ffroenau agored.

Ond ychydig o Gofis a deithiodd hyd-ddi erioed. Ac ychydig fyddai eisiau, o gofio llongddrylliadau enbyd y gorffennol.

Hil ar wahân i'r Cofis cyffredin oedd peilotiaid Afon Menai, a dim ond un ohonynt a oroesoedd i'm dyddiau i. Enw hwnnw oedd Abram Janeiro Jones.

Bu ei dad yn fêd ar y *New World II*, a ganed ei fab yn y doc yn Rio, yn faban cydnerth a bochgoch. Gwanychodd y fam ar y daith o Frasil i Gymru a marw ym Môr Iwerydd. Dysgodd ei dad ei wers. Rhoes heibio fordeithio a dod yn beilot ar y Fenai fel ei dad a'i daid. Magodd ei fab yn beilot o'r crud.

Y mab hwnnw, Abram Janeiro Jones, oedd yr olaf o linach anrhydeddus peilotiaid Afon Menai. Wedi i long deithio moroedd garwaf y byd, a dociau Lerpwl o'r

diwedd o fewn ei chyrraedd, rhaid fyddai cael peilot i'w thywys trwy'r culfor twyllodrus rhwng Môn ac Arfon.

Prin iawn yw'r llongau cargo sy'n dod y ffordd hyn heddiw. Llongau pleser yw llongau'r Fenai erbyn hyn. Bu Janeiro'n segur ers hydoedd, oherwydd ni fynnai ymostwng i dywys iots. Nid oedd ganddo blant, am y gwyddem, a hanner dysgodd ei grefft i fab cymydog fel y gallai hwnnw ymdrin â'r mân fadau gloyw.

Treuliodd flwyddyn neu ddwy yn pysgota lledod ym Mae Caernarfon, ond blinodd ar yr heigiau undonog a thaflodd ei rwydi i waelod y môr ym mwllch cul Abermenai.

Canfu waith, yn y pen draw, yn geidwad Pont yr Abar lle mae afon Saint yn cario'r mynydd i'r môr. Ar alwad cwch, atelir y cerddwyr ac ymranna'r bont yn ddwy i adael cwch allan o borthladd y dref, neu i mewn iddo.

Trigai Janeiro ym mwthyn ceidwad y bont yng nghysgod Coed Alun. Eisteddai bob dydd yn nrws ei dŷ, a hwylbrennau'r llongau pleser yn goedwig yn y cei, a Thŵr Eryr y castell yn dod rhyngddo a Maes y dref. Pan seiniai rhyw gwch, codai o'i sedd a mynd i'w dŷ i wasgu'r botwm coch a weithiai'r bont. Wedi i'r cwch fynd heibio gwasgai'r botwm gwyrdd a dychwelai'r bont i'w lle er mwyn gadael i'r cerddwyr groesi'r Abar.

Anaml y croesai Janeiro Bont yr Abar i'r dafarn neu i'r dref. Ni wyddai neb sut y cadwai gorff ac enaid ynghyd. Sonnid ei fod yn crwydro traeth y Foryd ben bore bach yn sŵn galarnadu pïod y môr, ac mai cocos a gwichiaid a bodiau crancod a'i cynhaliai. Sonnid ei fod yn ysmygu gwymon yn ei bibell, ac yn yfed dŵr heli. Ond ni feiddiodd neb erioed agosáu i ofyn. Gŵr a garai fod wrtho'i hun ydoedd.

Eto, fel y bydd bachgen a'i wreiddiau'n ddwfn mewn tir sych yn teimlo awydd annheuluol i fynd i'r môr, bŵm innau, ers y tro cyntaf i mi ei weld, yn ysu am forio ar ymchwydd y cefnfor hwn o ddyn. Plentyn dengmlwydd oeddwn, yn croesi Pont yr Abar i'r cae swings yr ochr draw, pan welais fotymau arian ei gôt yn disgleirio yng ngwyll Coed Alun. Fe'm tynnwyd atynt fel at oleudy.

Ni welodd yntau mohonof yn nesáu. Roedd ei drem ar y môr a golwg bell yn ei lygaid. Ai glas oeddent? Ynteu ai'r Fenai a welais yn ei lygaid?

Dim ond ar y funud olaf y trodd a'm gweld yn dod yn eiddil a bwriadus rhyngddo a'r castell. Cythruddodd i gyd. Nid anghofiaf ei floedd byth, na brath y rhaff a'i gwlwm a chwipiodd am fy nghoesau noeth, a minnau'n ei miglo hi'n ôl dros y bont.

Ni fentrais dros yr Abar am flynyddoedd wedyn: ni allai na fan *Mr Whippy*, na ffair haf y Foryd, na'r sôn am snogs genod yng Nghoed Alun, fy nhemtio dros y bont i wŷdd Janeiro. Ond gwyddwn ei fod yno o hyd, yn nrws ei dŷ yr ochr draw i'r castell, yn aros amdanaf a golwg bell yn ei lygaid.

Dim ond a'm llais wedi torri, a'm gên yn taflu barf, a ninnau wedi dechrau hel diod yn nhafarn yr *Anglesey*, y meiddiais glosio ato eto. Hon oedd fy mlwyddyn olaf yn y dref. Serennwn yng ngwersi daearyddiaeth Ysgol Syr Huw, ac roedd fy mryd ar fynd i goleg Lerpwl i raddio yn yr wyddor honno.

Fy mhrosiect ymchwil dros y Pasg oedd Afon Menai. Canfûm lawer ffaith yn llyfrgell y dref ac yn archifdy Doc Fictoria. Des i amgyffred ffiniau'r Fenai: gwneuthuriad ei glannau ansad; symudiadau'r llif ar lanw a thrai; lleoliadau'r creigiau garwaf, y trobyllau, y dŵr bas a'r sianeli dwfn, ynghyd â phatrwm arbennig y bwiau coch a gwyrdd mewn afon ac iddi ddwy geg. Dysgais am y rhai a fu'n byw oddi arni: pysgotwyr, llongwyr, smyglwyr, cyfalafwyr, a gyrwyr fferis gwaelod-gwastad Abermenai, Tal y Foel a Moel y Don. Gwelais y bywyd oedd ynddi: yn fecryll, penwaig, lledod, crancod, cimychiaid, cocos, gwichiaid a chregyn gleision, a myrdd o greaduriaid a phlanhigion na ddysgasom fanteisio arnynt eto...

Gwnâi fy ngwaith gynnydd da. Ond teimlwn rywsut fod rhywbeth ar goll, rhyw elfen bersonol... Nid oeddwn wedi ystyried holi Janeiro bryd hynny.

Dydd Gwener y Groglith ydoedd pan adewais y Maes a rowndio'r castell er mwyn cyrraedd y cei. Yno, rhwng Pont yr Abar a thafarn yr *Anglesey* yr ymgynullai'r hen longwyr i dalu gwrogaeth i'r Fenai. Fe'u holais yn drwyadl, ac roeddent yn fwy na pharod i drafod 'afon Gnarfon', yn enwedig am bris eu disychedu.

Yn wir, aethant i hwyl eu hanner atgofion am y Fenai: am forherwyr Gwyddelig o Carrickfergus; am long smyglo'n methu dianc rhag gwyr y cyllid ar Far Caernarfon; am hen feddwyn-faledwr y cei llechi, am fewnforio carthion siopau Dulyn i'w ddefnyddio'n wrtaith yn Arfon; am blant yn tynnu rhaff i lusgo sgwneriaid hyd y cei; am y *regatta* bob Awst ac am ddyddiau'r stemar bach a gysylltai'r dref ac Ynys Môn. Soniwyd am golli'r *Speranza*, *Mon Amour* a *HMS Conway*, ac am ddryllio brîg y *Queen of the Sea* oddi ar gwningar Niwbwrch, a boddi ugain o deithwyr, pedwar ugain o foch, dwy fuwch a thunnell o fenyn.

Yn sŵn eu paldaruo roedd enwau mannau'r Fenai fel enwau gwlad bell i
hogyn o'r dref: Mussel Bank, Belan, Tŷ Calch, Traeth Melynog, Traeth Gwyllt, Carreg
Frydan, y Cribinau, Ynys Gored Goch, Pwll Fanogl, Craig y Pwll a Phwll Ceris...

'Pwll Ceris!' bachais innau.

Ond dyna pryd y tawodd pob un. Drachtiodd Îf Bach a Sven o'u cwrw, ac aeth
Deio i danio matsys ar ei drowsus. Gostyngwyd golygon a gostyngwyd llais.

'Ei di ddim i waelod hwnnw, 'ngwas i...'

'*Bermuda Triangle* afon Gnarfon.'

'Maen nhw'n deud bod 'na gaer yn ei waelod o.'

'*Ker Is*,' meddai Îf Bach a aned yn Llydaw.

'*Swellies* fyddwn ni'n ddeud.'

'Dim ond un dyn fuodd yn y *Swellies*, meddan nhw,' meddai Padi.

A lledodd y sisial, nes i mi glywed llefaru enw Abram Janeiro Jones. A dyna
pryd y cododd pawb eu pennau a chiledrych tuag at fwthyn ceidwad y bont.

'Fiw i neb fynd ar ei gyfyl o.'

'Be os a'i?' meddwn innau, a thagodd Sven ar ei beint.

'Dos di ato fo, mêt, a ti'n gonar!'

'Ti'n saffach yn y *Swellies* nag efo hwnna!'

Chwarddodd pawb yn nerfus, a downio wisgi yr un.

Dim ond wedi i'r hogia fynd am eu cinio y meiddiais innau groesi'r bont.

O'i sedd yn ffrâm y drws gwyliais Janeiro'n edrych arnaf yn nesáu. Caeais fy
llygaid a cherdded yn fy mlaen. Pan chwipiodd y rhaff am fy nghoesau daliais fy
nghwrs. Pan deimlais y ddolen yn cydio, a'r cwlwm yn tynhau am fy ffêr, daliais fy
nghwrs. A phan ddaeth y plwc sydyn, roeddwn yn barod i ddisgyn i'r llawr a bwrw fy
mhen ar lwybr y peilot.

Dadebrais o'i glywed yn dwrdio.

'Ti 'di bod yn hitio'r botal, y cachwr bach!'

Fe'm llusgodd gerfydd fy ngwar, nid tuag at Bont yr Abar fel y disgwyliwn, ond
at y jeti ar y dde, lle'r oedd arwydd *peryl*, a lle byddai hogiau'r dref yn deifio am
bres.

'Ty'd yn ôl pan ti'n sobor, cyw crinc,' meddai Janeiro, a chyn i mi wybod be'
oedd be' cefais hwth dros yr ymyl. Teimlais fy nghorff yn disgyn fel câbl angor trwy'r
aer, a dyfroedd llygredig y Fenai'n dod yn nes ac yn nes.

Ar ôl llyncu digon i ddod i'r wyneb eto, a nofio i'r lan wrth risiau'r *Floating Restaurant*, a thynnu'r gwymon oedd yn gaglau am fy ffêr, a cherdded trwy'r Maes fel llygoden ddŵr; ac ar ôl i mam fynd â mi am bigiad i Ysbyty Gwynedd, ac i mi sychu'r llyfr nodiadau lle'r oedd geiriau'r llongwyr wedi llifo'n un, ystyriais eiriau Janeiro eto.

'Ty'd yn ôl pan ti'n sobor...'

Ar Sadwrn y Pasg, croesais y bont eto a chamu ar ei lwybr.

'Tri chynig i Gymro!' galwodd Janeiro'n goeglyd o ffrâm drws ei dŷ.

'Tri...?'

'Mi fuest ti yma ers talwm, do, cyw crinc.'

Gwridais innau am ei fod yn cofio.

'Isio gwybod am y *Swellies*.'

'Pam?'

'Gwaith ysgol.'

'Wela' i.'

Saib.

'Pwll Ceris fydda i'n ei ddeud,' meddai Janeiro wedyn.

Gwridais eto.

'Mi glywais i eich bod chi...'

'Ty'd yn d'ôl fory,' torrodd y peilot ar fy nhraws. 'Os ti'n ddigon o ddyn.'

Croesais Bont yr Abar y rhwyfus i gyd. Ond hanner ffordd drosodd caeodd y giatiau o'm blaen ac atal fy nghanu.

Symudodd y tir dan fy nhraed, a'r peth nesaf a welais oedd bod y bont yn ymrannu'n ddwy, a minnau'n symud gyda hi. Neu yn hytrach symudwn gyda'i hanner hi, a'm trem yn troi'n banorama, o Dŵr Eryr y castell, heibio i'r *Anglesey*, cyn dod i orffwys ar y Fenai; a thu hwnt iddi y ddwy goedon honno ym Môn y byddai'r haul - o edrych o Borth yr Aur - yn machlud rhyngddynt ar ddiwrnod hiraf yr haf.

Ond nid oedd na chwch na hwyllbren yn dod! Trois at fwthyn ceidwad y bont am eglurhad, ac yno, yn ffrâm y drws, safai Janeiro yn chwerthin o waelod ei fol.

'Enjoia'r olygfa, cyw crinc!' galwodd, a diflannu i dywyllwch ei dŷ.

Bûm yno am chwarter awr, yn hofran rhwng dwy lan ac elyrch y frenhines yn hwylio danaf. A hwyrach mai yno y byddwn i byth, oni bai am ddyfodiad llond bws o

bobl ddiarth a'u bryd ar fynd am dro, gan orfodi Janeiro i wasgu'r botwm gwyrdd a'm rhyddhau i fynd adref.

Pan oedd mam yn y capel fore Sul y Pasg croesais Bont yr Abar am y trydydd tro. Gwelwn Janeiro'n tanio'i bibell wrth i mi nesáu, ac erbyn dod ato roedd oglau mwg gwymon yn llenwi'r lle, a'r peilot eisoes wedi dechrau llefaru.

'Mae gan Bwll Ceris,' meddai, 'enw drwg gan bawb sy'n honni ei nabod...'

Cipiodd y beiro o'm llaw a'i thaflu i'r coed.

'Mae gan Bwll Ceris enw drwg gan bawb,' dechreuodd eto. 'Ac felly buodd hi erioed. Toes 'na Geltiaid, a Rhufeiniaid a Feicings wedi boddi yno? Tasai modd osgoi'r lle mi fyddan nhw wedi gneud hynny ganrifoedd yn ôl. Ond mae sianel y Fenai'n mynd trwy'r diawl lle.

'Tydi'r lle'n llawn ynysoedd a chreigiau! Rhai ohonyn nhw i'w gweld yn iawn, a'r lleill o'r golwg. Mae gen ti batsys o ddŵr bas creigiog, a phyllau tyfn reit wrth eu hymyl nhw. A bob tro mae hynny'n digwydd mi gei di drobwll.

'A'r peth arall am Bwll Ceris ydi bod y lle mor gul. Ar un ochor mae glannau Arfon, a'r rheiny'n lannau creigiog ar y diawl. Yr ochor arall iddo mae'r Cribiniau a Chraig y Pwll fel raselydd yn y dŵr. Bwlch cul sydd rhyngddyn nhw, ac mae'r dŵr yn cyflymu fel uffar yn fanno. Ac ar ben bob dim mi fedri di gael hwrdd sydyn o wynt weithiau trwy goed Arfon i achosi andros o *sheer* i dy gwch.

'Ti'n dallt am deitiau Afon Menai, cyw crinc? Bod y llanw'n dŵad i mewn o *gap* Abermenai a'r un ochor? A heibio Ynys Seiriol ar yr ochor arall ac yn cwarfod ei gilydd yn ochrau Bangor?

'Da was. Y peth ydi bod y teitiau hefyd yn cymhlethu pethau. Dim ond ar slac, ar ôl penllanw, yr ei di trwy Bwll Ceris, pan fydd 'na ddigon o ddŵr yn y sianel i glirio'r creigiau, ond dim cerrynt i dynnu'n groes. A hyd yn oed wedyn mae hi'n dynn. Ychydig funudau sy gen ti cyn i'r llanw droi. Ti'n clywed, cyw crinc?

'Dyna pam ydan ni mor bwysig,' aeth yn ei flaen. 'Y peilotiaid. Tydan ni nabod Pwll Ceris ers cenedlaethau! Wedi'n magu i wybod lle i fynd a lle i beidio, pryd i fynd a phryd i beidio, faint o dynfa ar long fydd yn cydweddu efo'r llanw...'

Edrychais arno'n defnyddio bawd ei law dde i gywasgu'r baco ym mhowlen ei bibell. A gwelais yr ôl du ar ei fawd pan aeth i'w boced i estyn ei leitar. Sugnodd yn chwyrn wrth ei thanio, a'i fochau'n pantio ac yn llenwi wrth dynnu'r mwg i mewn i'w geg.

'Toedd y byd i gyd yn dibynnu arnan ni ar un adeg! Llongau mwya'r byd yn dod trwy'r Fenai! Fasai'r ffernols heb neud yr un sentan ar eu cargos hebddan ni...'

'Mi oeddach chi'n uchel ei parch.'

'Oeddach chi...?' yn biwis.

Gostyngais fy ngolygon, a chanolbwyntio ar y twll rhwng esgid a gwadn Janeiro. Trwy'r twll gwelwn gnawd noeth ei droed, ac fe'm cynhyrfwyd yn rhyfedd. Pan godais fy ngolygon eto edrychai'r peilot tua'r môr.

'Uchel ein parch? Oeddau! Ond rywfaint elwach? Dim! Dim gair o ddiolch! Dim byd ond cildwrn gan gapteiniaid, a'r bai i gyd pan âi pethau'n giami...

'Ond yr hyn sy'n bwysig i chdi ei wybod ydi bod 'nhad a 'nhaid wedi mynd i'w beddau heb ddim i'w henw nhw, ond eu henw da. A neb yn eu coffáu nhw heddiw ond y fi. Yn fan hyn. A mastiau'r iots fel trawstiau'n fy llygaid i.'

'Dw innau yma hefyd!'

'Wyt,' meddai'r peilot yn araf.

Aeth ei wyneb yn rychau i gyd, fel petai gwynt yn cynhyrfu'r môr. Roedd ei geg yn gil agored, a'r bibell drom yn hongian yn llipa oddi ar ei wefus.

Tybed a oedd Janeiro ar fin dweud rhywbeth mawr?

Ond wrth i'r eiliadau basio aeth yr olwg arteithiol ar ei wyneb yn drech na mi.

'Dyna pam y rhoesoch chi'r gorau iddi?'

'Ches i mo 'magu i beilota llongau pleser. Nid dyna pam y ces i systifficet gan y *Board of Trade*!'

'Ond torri'r traddodiad?' daliais innau arno fo.

'Mi gafodd ei dorri drostaf i!' gwylltiodd y peilot. 'A beth bynnag, toedd gen i neb...'

'Dysgwch fi!'

Gwelais Janeiro'n llyncu'i boer.

'Mi liciwn i fod yn beilot,' a phlygu ymlaen at ei lin.

Ond cododd Janeiro ar ei draed yn sydyn, a pheri i mi orfod cilio o'i ffordd.

'Dydi'r peilot yn da i ddim heddiw, cyw crinc. Tydi'r Bar wedi siltio gormod i adael llongau mawr trwodd!'

'Ond methu dallt ydw i,' a chodais innau fy llais er mwyn ei ddal rhag mynd i mewn i'w dŷ, 'pam na fasach chi'n defnyddio'ch gwybodaeth at bethau eraill: syrfëo'r

Fenai, neu osod peipiau ar ei thraws hi, neu hyd yn oed sgwennu amdani... Mi fedar unrhyw un neud hyn!

Ac wrth estyn fy mraich i gyfeirio at Bont yr Abar, mi wyddwn i mi fynd yn rhy bell. Edrychodd Janeiro arnaf, a thorrodd ei eiriau fel ton oer drosom ni ein dau.

‘Y bastad bach!’ ac aeth i mewn i’w dy.

Bûm yn aros dros hanner awr cyn y dychwelodd.

‘Mi ddeudodd rhywun eich bod chi ’di bod ym Mhwll Ceris.’

‘Pwy ddeudodd hynny?’ roedd y peilot yn dal yn ffyrnig.

‘Y llongwrs,’ amneidiais at y dafarn yr ochor draw i’r Abar. ‘Padi Gwyddal, Sven a’r lleill.’

‘Ti ’di bod yn hel clecs efo’r rheiny? Welaist ti bod eu tinau nhw wedi gwisgo wal y cei’n llyfn?’

Edrychais arno heb ddweud dim.

‘A be arall ddeudodd y meddgwn diog?’

‘Dim byd... Dim ond eich bod chi wedi bod yn y *Swellies*.’

‘Wel, fues i ddim,’ meddai Janeiro o’r diwedd. ‘Ond mi wn i be sy ’na.’

Ni ddaeth i eistedd y tro hwn.

‘A ddeuda’i ddim wrthach chdi, mêt, i chdi gael mynd at y ffernols acw i chwerthin ar ’y mhen i.’

‘Faswn i byth...’

‘A beth bynnag, pam na ffeindi di allan dy hun? Siawns nad oes ’na lyfr yn yr ysgol acw?’

‘Ddois i ddim yma i gael fy sbeitio,’ meddwn innau.

Stryffaglais i godi a mynd. Ond erbyn cyrraedd hanner ffordd i lawr y llwybr roeddwn yn edifarhau. A phan na ddaeth chwip y rhaff ar fy nghoes, a phan na chydiodd y ddolen a chlymu am fy ffêr, a phan na ddaeth plwc y cwlwm i beri i mi ddisgyn eto, rhegais yn dawel.

Cyrhaeddais Bont yr Abar yn ddyn rhydd, a’m calon yn suddo.

Ond a minnau ar fin camu ar y bont caeodd y giatiau’n ddisymwth ac atal fy nghanu.

Trois yn ôl, a gweld Janeiro’n gwenu arnaf.

‘Byd arall sy ’na!’ galwodd wrth imi nesáu. ‘Byd anhygoel sy ’na yng ngwaelod Pwll Ceris! Byd bob lliw, nad ydan ni’n gwybod dim amdano fo..!’

Bûm yno'n hir yn gwranddo. Roedd yntau'n ei elfen yn sôn am greaduriaid ysbennnydd y Fenai. Soniodd, nid yn unig am gregyn llong, a chregyn gleision, a chocos a gwymonach, ond am wlithod môr hefyd, a sgorpionau môr a chimychiaid, corgimychiaid, crancod, crancod llygatgoch, abwydod a chyllyll môr. Soniodd am lyffantod môr pigog ac am lyfrothod. Soniodd am grystiau môr amryliw, am sbyngau oren, melyn a gwyrdd, am anemonïau blodeuog o liwiau pinc a choch a phorffor, am anemonïau pluog, ac am sêr gwaetgoch...

'Does wybod sut y bydd hi bob dydd,' meddai Janeiro. 'Achos dydi'r byd ar waelod Pwll Ceris byth yr un fath.'

Trodd ataf ac ailddechrau siarad, ond torrwyd ar ei draws gan sain aflafar llong bleser yn galw ar geidwad y bont. Gwelais Janeiro'n crynu ac yn tynnu ato. Yna cododd baglodd i mewn i'w dŷ.

Agorodd y bont a hwylodd yr iot yn ddidramgwydd o borthladd Caernarfon ac allan i'r Fenai fawr.

Caeodd y bont. Ystwyriais innau.

'Mi fydd Mam wedi gneud cinio...'

'Dy fam... ia, siŵr...'

'Diolch i chi am yr holl wybodaeth.'

'Ia,' meddai Janeiro wedyn.

Daliais fy llaw allan iddo, ond ni chynigiodd Janeiro ei law yn ôl.

Roedd fy nhaith yn ôl dros yr Abar yn ddilyffethair. Ni chaeodd y giatiau pan gyrhaeddais y bont. Ni chaeodd y giatiau pan nesaïs at ei hanner. Ni chaeodd y giatiau pan gyrhaeddais yr ochr draw, a chamu oddi ar y bont i wynebu porth mawr Tŵr yr Eryr.

Ni ddychwelais adref trwy'r Maes. Daliais i fynd, yn hytrach, ar hyd y cei, heibio i'r *Anglesey* a thua Porth yr Aur, er mwyn cadw'r Fenai - a Janeiro - o fewn fy ngolwg. Trois cyn mynd trwy Borth yr Aur i edrych dros f'ysgwydd, a gweld y peilot yn ffrâm drws ei dŷ. Yn sefyll yno a'i olwg ar y môr, a botymau arian ei gôt yn disgleirio fel goleudy yng ngwyll Coed Alun.

Codais fy llaw, ond ni'm cyfarchodd yn ôl.

Ni fûm yn ôl yn gweld Abram Janeiro Jones. Wn i ddim pam yn iawn. Yn sicr, nid am iddo beidio â'm cyfarch cyn i mi ddiflannu trwy Borth yr Aur, nac ychwaith am iddo alw enwau arnaf yn ei dymer.

Y gwir amdani yw i bethau eraill fynd â'm bryd dros yr wythnosau canlynol. Arholiadau, yn anad dim. Cefais farc ardderchog - y gorau trwy Gymru - am fy mhrosiect ymchwil. Ar fy mhenblwydd yn ddeunaw ganol Awst derbyniais swm o arian a gadwyd i mi ers fy ngeni. Cyfrannodd mam hithau ryw hyn a hyn, er mwyn fy ngalluogi i deithio i 'weld y byd'.

Erbyn dychwelyd roedd hi'n bryd ei throi hi am y coleg, a minnau wedi ennill fy lle yn adran daearyddiaeth coleg Lerpwl.

Ym mlwyddyn olaf fy ngradd y clywais am Janeiro wedyn, a thrwy mam y digwyddodd hynny.

Daeth llythyr ganddi un bore yn fuan wedi'r Pasg. Nid oedd dim yn anghyffredin yn hyn. Ysgrifennai ataf yn gyson yn holi sut oeddwn, ac yn cynnwys pwt o newyddion am fywyd ein cymdogion yn y dref. Llythyr tebyg oedd hwn. Ond wedi'i amgau yr oedd darn o'r *Caernarfon and Denbigh Herald*.

Adroddiad tra manwl oedd yma ar longddrylliad a ddigwyddodd yn y Fenai dros y Pasg. Anaml y clywn y newyddion y dyddiau hyn, a minnau mor brysur yn adolygu. Cipiodd yr erthygl fy anadl.

Hen ffrigad 60-gwn oedd yr *Indefatigable*. Gwyddwn amdani'n iawn. Llong ysgol, lle prentisid morwyr ifanc yng ngwyddor mordwyaeth a *plane geometry*, a'u paratoi i yrfa ar y môr. Daethpwyd â hi i'r Fenai yn ystod yr Ail Ryfel Byd i'w harbed rhag y cyrchoedd bomio yn Lerpwl. Yno, mewn hafan heb fod ymhell o Blas Newydd, ar ochr orllewinol Bont Britannia, y bu hi ers hynny, yn gartref ac yn ysgol i genedlaethau o gadéts.

Digwyddodd y ddamwain pan ddaeth yn bryd symud y llong yn ôl i'w hadnewyddu a'i hatgyweirio yn noc sych Lerpwl. Nid oedd peiriant i'r llong, a rhaid fyddai defnyddio mudiant naturiol y llif a grym dau dynfad i'w thywys, a hynny'n peri bod y daith tua'r dwyrain yn llawer mwy mentrus na'r daith tua'r gorllewin hanner can mlynedd ynghynt.. Nid ar chwarae bach yr eid â'r *Indefatigable* trwy'r filltir enbyd honno rhwng Pont Britannia a Phont y Borth, a'r llif yn troi'n eu herbyn.

Roedd gofyn cynllunio gofalus, ac yn anad dim brofiad ac arbenigedd ynghylch y sianel a symudiadau cymhleth y llanw a'r trai. Testun syndod a llawenydd

i bawb, meddai'r *Herald*, oedd bod peilot mwyaf profiadol y Fenai, Abram Janeiro Jones, wedi cytuno i droedio'r môr unwaith eto, a llywio'r llong trwy'r Fenai ar y cyd â'i Chaptan Arolygol, Capten J.E.A. Quinn.

Ar ôl ymgynghori â'r Dr Knight yng Ngwylfa Bidston penderfynodd y pwyllgor symud yr *Indefatigable* ar lanw uchel y Gwanwyn.

Gofynnodd y peilot am dynfad arall, rhag ofn. Gwrthododd Capten Quinn, gan ddweud y byddai dau dynfad yn hen ddigon i 'walsio' trwodd â'r llong.

Dydd Sadwrn, Ebrill 14 oedd y diwrnod mawr, sef yr ail o dri diwrnod pan fyddai teitiau'r Gwanwyn ar eu huchaf. Byddai'n rhaid aros am slac y penllanw cyn mynd i mewn i Bwll Ceris, a dim ond rhyw bum munud o slac a geid ar deitiau uchel fel hyn, cyn i'r llif droi'n ôl tua'r gorllewin yn eu herbyn.

Am 0820 cychwynnodd yr *Indefatigable* ar ei thaith, ac am 0845 daeth i orffwys i'r gorllewin o Bont Britannia. Yma câi ei dal yn ei lle gan y tynfadau i aros ei thro cyn mynd i mewn i Bwll Ceris am 0920.

Roedd y gwynt yn ysgafn i gymhedrol o'r gogledd-orllewin. Byddai'r gwynt hwn yn achosi slac cynharach, a dywedodd y peilot y dylid bod yn mynd i mewn i Bwll Ceris yn gynt na 0920. Anghytunai Capten Quinn. Mynnodd gadw at yr amserlen wreiddiol.

Aeth y symud rhagddo am 0915. Ond anodd oedd codi cyflymder llong o faint yr *Indefatigable*, ac roedd yn 0923 erbyn mynd o dan Bont Britannia. Aethpwyd heibio i greigiau'r Cribiniau yn ddiogel, ond erbyn dod at Ynys Gored Goch roedd y llif eisoes wedi troi tua'r gorllewin ac yn gyrru'n chwyrn yn eu herbyn. Mynnodd y peilot eu bod yn troi'n ôl. Gwrthododd Capten Quinn eto. Roedd rhaid mynd trwodd ar y llanw hwn, a miloedd a bunnoedd yn y fantol.

Erbyn cyrraedd Craig y Pwll roedd y llif yn eu herbyn wedi cyrraedd cyflymder o ddwy not, a'r llong yn methu'n lân â mynd rhagddi. Daeth yn amlwg na fyddai'r llong yn cyrraedd Pont y Borth. Mynnodd y peilot eto droi'n ôl, ond ni dderbyniodd Quinn mo'r cyngor.

Erbyn hyn roedd yr *Indefatigable* yn cael ei lluchio i bob ochr gan y llif grymus. Am 1015 galwyd ar dynfad y starn i ddod i helpu tynfad y tu blaen i dynnu'r llong trwodd. Llwyddodd hyn am beth amser. Ond pan ddaethpwyd at greigiau'r *Platters* fe siglwyd starbord yr *Indefatigable* gan drolif ffyrnig. Ni lwyddodd y tynfadau i ymateb a

gwrthweithio'r siglad. Torrodd cadwyn un ohonynt a'i ddatgysylltu. A dyna pryd y trawodd yr *Indefatigable* y creigiau.

Ofer fu pob ymdrech i'w thynnu'n ôl i'r Fenai pan ddaeth llanw'r prynhawn. Llifodd y dŵr trwy ffenestri bwrdd isaf y starn, a'i thynnu i lawr. Erbyn nos roedd yr *Indefatigable* wedi'i dryllio gan greigiau a theitiau grymus Pwll Ceris.

Sefydlwyd Is-bwyllgor Ymholiadol i ymchwilio i'r 'ddamwain', meddai'r *Herald*, ac roedd hwnnw i adrodd i'r Llys Ymholiad. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, meddai'r *Herald*, y prif gonsyrn oedd y ffaith na welwyd y peilot, Abram Janeiro Jones, ers diwrnod y drylliad. Roedd ei fwthyn yng Nghaernarfon yn wag.

Roedd sôn i rywun ei weld yn sefyll dan gadwyni Pont y Borth. Gofynnodd yr *Herald* i unrhyw un oedd ag unrhyw wybodaeth gysylltu â'r heddlu.

Yn y coleg yn Lerpwl llifodd geiriau'r erthygl yn un wrth i ddŵr hallt y Fenai llenwi fy llygaid. Rhoddais fy mhen i lawr a gadael i'r dagrau lifo am y peilot a fu fel tad i mi. Toeddwn i wedi treulio fy mhientyndod cyfan yn ei wydd?

Yn ystod cyfnod f'arholiadau gradd breuddwydiais bob nos am y Fenai. Am adael y Maes a rowndio'r castell er mwyn cyrraedd y cei. Am fynd i gyfarch y llongwyr wrth dafarn yr *Anglesey*, ac am eu gweld yn amneidio tua Phont yr Abar oedd yn hanner agored. Roedd bwthyn y Ceidwad yn wag, a phan drown yn ôl atynt fe'u gwelwn yn chwerthin i mewn i'w gwydrau peint.

Rhedais bob nos hyd lannau ansad Fenai yn chwilio amdanat, Janeiro, ac yn galw dy enw yn swm galarnadu pïod y môr. Heibio i Waterloo Port, a Llanfair-is-gaer, a chanolfan chwaraeon Plas Menai; heibio i'r Felinheli a Phont Britannia, a heibio i'r creigiau geirwon. Cyn plymio i'r dŵr ym Mhwll Ceris, i ganol dy greaduriaid anhygoel. Roedd rhyw drobwl yn fy sugno. Ildiwn iddo bob tro, ond ni chyrhaeddwn y gwaelod byth.

Ar y trê'n adref o Lerpwl, a minnau'n mynd hyd yr arfordir, synfyfyriais am symudiadau cymhleth teitiau Afon Menai ac am batrwm arbennig y bwiau coch a gwyrdd mewn afon ac iddi ddwy geg. A rhegais y peilot am na ddysgodd i mi ei grefft.

Braf yw bod eto ar lannau Afon Menai, a'r môr ddwywaith bob diwrnod yn llenwi ac yn gwagio'r hafn sy'n creu'r ffin rhwng Môn ac Arfon. Cofiaf am y cyfan a ddygodd y Fenai i'r dref hynafol hon, ac am y cyfan a ddygodd oddi yma.

Ond pan ddaw diwedd yr haf bydd yn rhaid i mi ffarwelio â hi eto a mynd i chwilio gwaith tua'r dwyrain. Fy mwriad yw gadael yn ystod y slac wedi penllanw, a dim ond ychydig funudau fydd gennyf cyn i'r llif droi eto tua'r gorllewin. Nid wyf am iddo fy nhynnu'n ôl tuag at fwch Abermenai. Y bwch cul hwnnw y mae llanw a thrai'r lwerydd wedi cafnu ei waelod yn bydew dwfn.

E. Angharad Price